# CABINET

## DYDD LLUN 15EG EBRILL 2024

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D. Price (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| C.A. Davies | L.D. Evans | P.M. Hughes | E.G. Thomas |
| J. Tremlett | | | |

**Cynghorwyr (O Bell):**

| | | |
|---|---|---|
| G. Davies | A. Lenny | A. Vaughan-Owen |

**Hefyd yn bresennol fel sylwedydd (O Bell):**
Y Cynghorydd D.M. Cundy

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
W. Walters - Prif Weithredwr
C. Moore - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
J. Morgan - Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
G. Morgans - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
P.R. Thomas - Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
J. Jones - Pennaeth Adfywio, Pholisi a Digidol
L. Rees-Jones - Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
C. Higginson - Rheolwr Cyfryngau
L. Jenkins - Swyddog Cymorth y Cabinet
J. Owens - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
M. Runeckles - Swyddog Cefnogi Aeolodau

**Hefyd yn bresennol (O Bell):**
M. Evans Thomas - Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
A. Eynon- Prif Gyfieithydd
D. Hall-Jones - Swyddog Cefnogi Aelodau

**Y Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin ac o Bell : 10.00 yb - 10.18 yb**

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd H.A.L. Evans.

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

3. **I LOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFODYDD Y CABINET A GYNHALIWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:-**

**3.1. 18EG MAWRTH 2024**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar yr 18eg Mawrth 2024 yn gofnod cywir.**

**3.2. 25AIN MAWRTH 2024**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 25ain Mawrth 2024 yn gofnod cywir.**

4. **CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

5. **CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd

6. **DIOGELU CYFLOGAETH (POLISÏAU / CANLLAWIAU DIWYGIEDIG A NEWYDD)**

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad oedd yn nodi diwygiadau a wnaed i Ganllawiau DBS yr Awdurdod, a oedd wedi'u diweddaru i gynnwys prosesau diwygiedig o ran asesiadau risg a phrosesau uwchgyfeirio ar gyfer recriwtwyr nad ydynt yn cydymffurfio.

Diweddarwyd y canllawiau manylach hyn yn dilyn archwiliad gan ein Swyddog Diogelu mewn Cyflogaeth ac ar ôl ymgynghori â rheolwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill, gan gynnwys y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gwnaeth y Grŵp Diogelu Corfforaethol ddiwygiadau pellach hefyd i sicrhau bod yr argymhellion diweddar gan Archwilio Cymru yn cael eu hystyried.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**6.1 cynmeradwyo Canllawiau diwygiedig GDG, a ddiweddarwyd i gynnwys y broses ddiwygiedig o amgylch asesiadau risg a phroses uwchgyfeirio ar gyfer recriwtwyr nad ydynt yn cydymffurfio, fel y'i hatodwyd i'r adroddiad;**

**6.2 fabwysiadu'r polisïau canlynol, fel y'u hatodwyd i'r adroddiad:-**
**(1) Polisi Recriwtio Mwy Diogel**
**(2) Polisi Recriwtio Cyn-droseddwyr**

## 7. Y RHAGLEN DEG TREF (CRONFA REFENIW)

Bu'r Cabinet yn ystyried cais yn gofyn am gymorth ariannol o Gronfa Refeniw y Rhaglen Deg Tref.

Mae Cyngor Tref Castellnewydd Emlyn, ar ran Tîm Cynllun Twf y 10 Tref, yn ceisio cyllid i gefnogi'r gwaith o ddatblygu digwyddiadau cenedlaethol a lleol yng Nghastellnewydd Emlyn i helpu i godi'r proffil a chynyddu nifer yr ymwelwyr â'r dref a'r ardal gyfagos. Mae cyllid yn cael ei geisio i gefnogi Pencampwriaethau Prawf Amser a Rasio Ffordd Iau Cenedlaethol Beicio Prydain yng Nghastellnewydd Emlyn ym mis Mehefin 2024. Ar ôl cynnal Pencampwriaethau Rasio Ffordd Cymru yn 2022 a'r Pencampwriaethau Rasio Ffordd i Ddynion yn 2023 yn llwyddiannus, roedd y cyhoeddiad gan Beicio Prydain y byddai Pencampwriaethau Iau Cenedlaethol 2024 yn cael eu cynnal yng Nghastellnewydd Emlyn yn gyfle pwysig i'r dref godi ei phroffil fel lle i ymweld ag ef ac i aros. Bydd busnesau lleol yn helpu i drefnu'r digwyddiad, gan sicrhau eu bod yn gallu cael cymaint â phosibl o wariant gan ymwelwyr sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r cais a wnaed gan Gyngor Tref Castellnewydd Emlyn am gyllid o £14,800 o Gronfa Refeniw y Deg Tref.**

## 8. CRONFA GYFALAF Y RHAGLEN DEG TREF - LLANYBYDDER

Bu'r Cabinet yn ystyried cais yn gofyn am gymorth ariannol o Gronfa Gyfalaf y Rhaglen Deg Tref.

Cyflwynwyd y cais gan Ganolfan Gymunedol yr Hen Ysgol, sef elusen yn Llanybydder. Mae ailddatblygu'r ganolfan gymunedol wedi'i nodi fel prosiect blaenoriaeth yng nghynllun twf economaidd y dref, yn ogystal â chan dîm y cynllun twf economaidd. Mae cyllid yn cael ei geisio i adnewyddu ac addasu'r adeilad presennol sydd ar hyn o bryd mewn cyflwr gwael. Bydd y prosiect yn creu canolfan sy'n cefnogi twf economaidd ac anghenion cymdeithasol y dref drwy ddatblygu:-

- Lle gweithio ar y cyd i fusnesau bach ei logi a'i ddefnyddio
- Canolfan dysgu a datblygiad personol
- Llogi cyfleusterau digwyddiadau
- Caffi

Bydd yr elfennau hyn yn ategu'r gampfa gymunedol bresennol sydd eisoes yn gweithredu yn y ganolfan sy'n darparu ffrwd incwm i sicrhau ei chynaliadwyedd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r cais am grant o £100,000 o Gronfa Gyfalaf 10 Tref yr Awdurdod a £74,294 o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin fel rhan o'r rhaglen Angor Gwledig, a gyflwynwyd gan Ganolfan Gymunedol yr Hen Ysgol, Llanybydder.**

**9. AELODAETH - GRWP CYDWEITHREDU PARC HOWARD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi'r Cynghorydd Steve Williams i wasanaethu ar Grŵp Cydweithredu Parc Howard (ar y cyd â Chyngor Tref Llanelli).**

**10. NEWIDIADAU GAN Y GRWP LLAFUR I AELODAETH PANELAU YMGYNGHOROL Y CABINET**

Bu'r Cabinet yn ystyried y newidiadau canlynol i aelodaeth Paneli Ymgynghorol y Cabinet a gyflwynwyd gan y Grŵp Llafur:-

- Bod y Cynghorydd Edward Skinner yn llenwi'r sedd wag ar Banel Ymgynghorol y Cynllun Datblygu Lleol
- Bod y Cynghorydd Anthony Leyshon yn cymryd lle'r Cynghorydd Dot Jones ar Banel Ymgynghorol y Gweithgor Cefn Gwlad
- Bod y Cynghorydd Lewis Davies yn llenwi'r sedd wag ddiwethaf ar Banel Ymgynghorol y Gweithgor Cefn Gwlad

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i aelodaeth Paneli Ymgynghorol y Cabinet, fel y nodir uchod.**

**11. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**